OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1690 (Cy.159)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU
PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Cyfansoddiad Timau a Swyddogaethau Byrddau) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*24 Mehefin 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*29 Mehefin 2010*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y swyddogaethau a roddwyd gan adrannau 60(1) a 62(2) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Cyfansoddiad Timau a Swyddogaethau Byrddau) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 1 Medi 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "gweithiwr cymdeithasol" ("*social worker*") yw person sydd wedi ei gofrestru fel gweithiwr cymdeithasol gyda Chyngor Gofal Cymru neu'r Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol neu ar gofrestr gyffelyb o weithwyr cymdeithasol a gynhelir yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

ystyr "gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol" ("*consultant social worker*") yw gweithiwr cymdeithasol sydd â thair blynedd, o leiaf, o brofiad ar ôl cymhwyso ac yn meddu ar y cyfryw sgiliau, cymwysterau a chymwyseddau ag a bennir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru mewn canllawiau a ddyroddir o dan adran 65 o Fesur 2010

ystyr "Mesur 2010" ("*the 2010 Measure*") yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;

(**1**) 2010 mccc. 1

ystyr "nyrs" ("*nurse*") yw person a gofrestrwyd yn rhan y nyrsys o'r gofrestr a gynhelir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth;

ystyr "tîm" ("*team*") yw tîm integredig cymorth i deuluoedd a sefydlwyd o dan Ran 3 o Fesur 2010;

ystyr "ymwelydd iechyd" ("*health visitor*") yw person a gofrestrwyd yn rhan y nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol o'r gofrestr a gynhelir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, ac sydd â'i gofnod yn y rhan honno o'r gofrestr yn cofnodi cymhwysedd mewn gwasanaethau ymwelwyr iechyd.

Cyfansoddiad timau integredig cymorth i deuluoedd

2.—(1) Rhaid i dîm gynnwys o leiaf bum person y mae pob un ohonynt yn dod o un o'r categorïau proffesiynol a ganlyn—

(a) gweithiwr cymdeithasol;

(b) nyrs; neu

(c) ymwelydd iechyd.

(2) Rhaid i dîm gynnwys o leiaf un person o bob un o'r categorïau yn is-baragraffau (a) i (c) o baragraff (1).

(3) Rhaid i un aelod o'r tîm fod yn weithiwr cymdeithasol ymgynghorol.

3. Rhaid i dîm gynnwys staff sy'n meddu ar sgiliau a phrofiad addas, gan ystyried—

(a) y categorïau o achosion y gellir eu hatgyfeirio at y tîm;

(b) yr angen sydd ar y staff proffesiynol am gymorth gweinyddol; ac

(c) unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 65 o Fesur 2010.

Byrddau Integredig Cymorth i Deuluoedd

4. Er mwyn cyrraedd yr amcanion yn adran 62(1) o Fesur 2010 (Swyddogaethau byrddau integredig cymorth i deuluoedd) rhaid i fwrdd integredig cymorth i deuluoedd—

(a) cael ac ystyried adroddiadau rheolaidd oddi wrth y person sy'n rheoli'r tîm gan gynnwys gwybodaeth am lefelau gweithgarwch gwasanaethu a chanlyniadau;

(b) ceisio datrys problemau o ran cyd-drefnu gwasanaethau a ddarperir gan y tîm a gwasanaethau eraill a ddarperir gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol;

(c) sicrhau bod gan y tîm weithdrefnau o ran

(i) amddiffyn plant;

(ii) amddiffyn oedolion;

(ch) sefydlu gweithdrefn i ddatrys anghydfod rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol am y trefniadau ar gyfer y tîm;

(d) sicrhau bod trefniadau digonol i oruchwylio pob aelod o staff proffesiynol ac i ofalu am eu datblygiad proffesiynol;

(dd) cael adroddiadau ar incwm a gwariant y tîm a hysbysu'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol am unrhyw broblemau ariannol neu broblemau yn ymwneud ag adnoddau eraill a fyddai'n debygol o effeithio ar allu y tîm i gyflawni ei amcanion.